Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau ar gyfer y broses Amser Allan o'r Rhaglen Hyfforddiant Sylfaenol (TOFP) yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Feddygon Sylfaen presennol sy'n dymuno cymryd amser “allan o raglen” yn ystod eu hyfforddiant Sylfaen a dylid eu darllen ar y cyd â'r Canllaw Aur (“Allan o Raglen mewn Hyfforddiant Sylfaen”)

Mae TOFP fel arfer yn para am gyfnod o 12 mis rhwng y flwyddyn F1 a'r flwyddyn F2.

Yng Nghymru, er y byddwn yn gwarantu swydd F2 i chi ddychwelyd iddi**, ni allwn** gadw'r cylchdroadau hyfforddi a ddyrannwyd i chi nac warantu y byddwch yn dychwelyd i'r un rhanbarth yng Nghymru. Fel arfer, dim ond o blith swyddi gwag sydd ar gael y cynigir swyddi i ddychwelyd iddynt.

## Goblygiadau cyflogaeth

Sylwer y bydd eich contract cyflogaeth gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn cael ei derfynu pan fyddwch yn cymryd Amser Allan o'r Rhaglen Sylfaen (TOFP), ynghyd ag unrhyw hawliau cyflogaeth cysylltiedig. Ar ôl cadarnhau eich bod yn dychwelyd, bydd gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cychwyn er mwyn rhoi contract newydd i chi, a fydd yn dechrau ar ddyddiad eich dychweliad.

Bydd unrhyw nawdd ar gyfer fisâu hefyd yn dod i ben yn ystod cyfnod y TOFP.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar eich sefyllfa gyflogaeth, gofynnwch am gyngor gan Dîm y Rhaglen Sylfaen NWSSP.

## Broses ar gyfer ceisiadau TOFP

Yn y lle cyntaf, dylai Meddygon Sylfaen drafod eu bwriadau gyda'u Goruchwyliwr Addysg a/neu Gyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen. Yna mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais TOFP genedlaethol (a geir ar wefan UKFPO), a'i chyflwyno i Ysgol Sylfaen Cymru drwy HEIW.FoundationSchool@wales.nhs.uk.

# Guidance for the Time out of Foundation Programme (TOFP) process in Wales

## Introduction

This guidance is relevant to current Foundation Doctors who wish to take some time “out of programme” during their Foundation training and should be read in conjunction with the Gold Guide (“OOP in Foundation Training”).

TOFP is typically for a period of 12 months between the F1 and F2 year

In Wales, whilst we will guarantee an F2 post to return to, we are **not able** to reserve your allocated rotations or to guarantee a return to the same region within Wales. Posts to return to will typically be offered from available vacancies only.

## Employment implications

Please note that upon taking TOFP your employment contract with the NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) will be terminated along with any associated employment rights. Upon confirmation of your return, pre-employment checks will be initiated in order to issue a new contract from your return date.

Any sponsorships for visas will also cease during the TOFP period.

Please seek advice from the NWSSP Foundation team on how this will impact your employment position if you have any concerns.

## Process for TOFP applications

In the first instance, Foundation Doctors should discuss their intentions with their Educational Supervisor and/or Foundation Programme Director. Applicants must then complete the national TOFP Request Form (found on the UKFPO’s website), and submit it to the Wales Foundation School via HEIW.FoundationSchool@wales.nhs.uk.

Rhaid derbyn ceisiadau o leiaf **chwe mis** cyn dechrau'r cyfnod TOFP y gofynnwyd amdano, gyda'r bwriad y bydd yn cael ei gadarnhau gydag o leiaf 3 mis o rybudd ar gyfer pob parti. **Sylwch na dderbynnir ceisiadau hwyr neu anghyflawn.**

Bydd y cais TOFP yn cael ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Ysgol Sylfaen (neu'r Dirprwy) a darperir cadarnhad o'r canlyniad drwy e-bost o fewn un mis calendr.

Pan dderbynnir nifer fawr o geisiadau gan garfan, bydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo yn seiliedig ar ddewis ar hap unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio.

## Tynnu cais TOFP yn ôl

Os yw Meddyg Sylfaen yn dymuno tynnu ei gais TOFP yn ôl, dylent hysbysu'r Ysgol Sylfaen cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach yn y broses na **10 diwrnod gwaith** ar ôl cadarnhad bod eu cais wedi'i gymeradwyo.

Os bydd y Meddyg Sylfaen yn tynnu eu cais yn ôl ar ôl y pwynt hwn, bydd eu dyraniad lleoliad gwreiddiol wedi cael ei ryddhau ac efallai na fydd yn bosibl dyrannu rhaglen hyfforddi amgen iddynt yn ei le.

## Dychwelyd o TOFP

Trwy gyflwyno cais TOFP, mae'r Meddyg Sylfaen yn ymrwymo i ddychwelyd i hyfforddiant F2 yng Nghymru ar y dyddiad dychwelyd cymeradwy.

Bydd yr Ysgol Sylfaen mewn cysylltiad chwe mis cyn y dyddiad dychwelyd cymeradwy i gael cadarnhad bod y Meddyg Sylfaen yn dal i fwriadu dychwelyd i'r Rhaglen Sylfaen yng Nghymru, a chydlynu a chadarnhau eu lleoliadau hyfforddiant yn y dyfodol.

**Er bod y Meddyg Sylfaen yn sicr o ddychwelyd i Raglen Sylfaen Cymru, nodwch na ellir gwarantu cylchdro, ysbyty, Bwrdd Iechyd neu ranbarth penodol.**

Applications must be received at least **six months** prior to the start of the requested TOFP period, with the intention that it will be confirmed with at least 3 months' notice for all parties. **Please note that late or incomplete applications will not be accepted.**

The TOFP application will be reviewed by the Foundation School Director (or Deputy) and confirmation of the outcome will be provided by email within one calendar month of the application deadline.

Where a large number of applications are received from a cohort, applications will be approved based on random selection once the application deadline has passed.

## Withdrawing a TOFP application

If a Foundation Doctor wishes to withdraw their TOFP application, they should inform the Foundation School as soon as possible, and no later in the process than **10 working days** after confirmation that their application has been approved.

If the Foundation Doctor withdraws their application after this point, their original placement allocation will have been released, and it may not be possible to allocate them an alternative training programme in its place.

## Returning from TOFP

By submitting a TOFP request, the Foundation Doctor commits to returning to F2 training in Wales upon the approved return date.

The Foundation School will be in contact six months prior to the approved return date to obtain confirmation that the Foundation Doctor still intends to return to the Foundation Programme in Wales, and to coordinate and confirm their future training placements.

**Whilst the Foundation Doctor is guaranteed to return to the Wales Foundation Programme, please note that a specific rotation, hospital, Health Board, or region cannot be guaranteed.**